

Dydd Llun 20^{fed} Chwefror 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi'r cyfle i mi ddarparu adborth ar y fersiwn ddrafft o'ch Asesiad Llesiant Lleol a anfonwyd i'r swyddfa yn Ionawr 2017.

Y peth cyntaf yr wyf am ei wneud yw gwneud yn glir fy mod i'n deall yn llwyr yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaed gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n rhoi un o'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a darparu gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad chi yn rhan allweddol o hyn, ac er fy mod yn deall na fydd, o bosibl, yn ddarlun llawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, y mae'n bwysig ei fod yn rhoi darlun clir a deallus o lesiant Torfaen a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau allweddol ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Atodaf ddogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a'r hyn y dylech ystyried adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ac yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18, un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn eich bod yn ceisio cyngor gennyf ar sut mae cymryd camau i gyflawni eich amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (pum dull o weithio).

Nodaf isod rai o'r pethau y byddaf yn chwilio amdanynt wrth i'm swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn rhoi sylw i'r pum dull o weithio mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant, a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad cysylltiedig o ran mwyafu eu cyfraniad cyfunol i'r nodau a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Roeddwn yn falch o weld eich bod wedi gwneud dechrau da â'ch dull o **gynnwys pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad, trwy eich gwaith ymgysylltu a'r cwestiynau craff a ofynnwyd ynghylch pryderon pobl a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn eich annog i adeiladu ar hyn i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion ymgyfrannu a dylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn a wnewch.

Mae'n amlwg bod swmp y data MSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol) ac LSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is) rydych wedi'i gasglu yn darparu sylfaen gref ar gyfer eich cynllun llesiant. Mae peth o'r wybodaeth a ddarperir gennych ynghylch demograffeg, iechyd, y rhagolygon economaidd, y newid yn yr hinsawdd, a thai yn dangos ymwybyddiaeth o faterion allweddol i ddyfodol Torfaen. Credaf fod cyfle i chi adeiladu ar hyn a chanolbwyntio mwy ar y tymor hir yn eich gwaith wrth symud ymlaen, ac archwilio pa rai o'ch cymunedau sy'n arbennig o fregus yn wyneb y tueddiadau tymor hir a nodwch.

Credaf fod cyfle i chi ymchwilio ymhellach i **integreiddio** polisiâu a heriau o dan y pedair thema (llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol), a chreu cysylltiadau cryfach â'r saith nod llesiant. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau cymharol eich sefydliadau gwahanol wrth i chi **fwyafu eich cyfraniad** at y nodau.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynlluniau llesiant. Mae hwn yn faes lle byddwn i'n eich annog i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthyh, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio** yn allweddol i hyn oll - yng Ngwent, rydych chi eisoes yn cydweithio'n rhanbarthol trwy G7 a GSWAG ac mae cyfle gennych bellach i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio drwy gyfrwng adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i nodi'r cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynlluniau llesiant angen eich ymrwymiad a'ch cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, fwy na thebyg, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi lle a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid diwylliant hwn yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y bydd gofyn i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech gymryd camau i gyflawni eich cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach ynghylch sut byddwch chi'n defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Byddwn yn ddiolchgar os gallech roi gwybod i'm swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg, bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y BGC. Nodwyd bod angen ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu a bod hynny'n rhan bwysig o fwyafu'r gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Rwy'n gobeithio bod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld datblygu eich asesiad fel digwyddiad unwaith yn unig. Wrth symud ymlaen, byddaf yn rhoi cyfleoedd i'r BGCau rannu gwersi ac arfer gorau. Gobeithio y byddwch chithau'n ymwneud â hynny, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi gyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Cofion gorau,



Sophie Howe,
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Asesiad Llesiant Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen ar ddrafft terfynol *Drafft Ymgynghori Asesiad Llesiant Torfaen Rhagfyr 2016*. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Crynodeb Gweithredol - Drafft Ymgynghori Asesiad Llesiant Torfaen, Rhagfyr 2016
- Rhan 1 - Drafft Ymgynghori Asesiad Llesiant Torfaen, Rhagfyr 2016
- Drafftiau Ffeithluniau: Rhan 2 - Blaenafon; Rhan 3 - Pont-y-pŵl; Rhan 4 – Cwmbân; Rhagfyr 2016
- trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau o dîm y BGC ar 2^{il} Chwefror

Bwriedir bod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cyhoeddi'r asesiad yng ngwanwyn 2017 lle bydd hynny'n bosibl a chan gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn llywio'r prosesau parhaus o ddatblygu eich asesiad a'ch cynlluniau llesiant.

Mae'r asesiad wedi cael ei adolygu gan y tîm prosiect gan ddefnyddio set o feini prawf a ddatblygwyd yn arbennig i ffocysu ar agweddau ar waith cynhyrchu, methodoleg a dadansoddi yr asesiad a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu'r ystod eang o ymagweddau at yr asesiad llesiant lleol a ddefnyddiwyd, ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i'r BGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd y gellid eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i nodi materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff sector cyhoeddus a chyrff eraill sy'n ymwneud â chynllunio llesiant.

Rydym yn deall bod yr Asesiad Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y misoedd sy'n dod, ond mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol a gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu a'i addasu, ac wrth adeiladu arno i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion rydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod BGCau yn dangos sut maent yn cynllunio i fwyafu eu cyfraniad i'r nodau.

Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Torfaen rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'n bwysig bod cysylltiad clir rhwng y data, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau. Mae'r asesiad wedi cyflwyno ystod glir o faterion llesiant sy'n flaenoriaeth i Dorfaen, ac mae llawer o ddeunydd yn yr asesiad i'n helpu i ddeall eu heffaith. Mae lle i roi mwy o ystyriaeth i'r berthynas rhwng y blaenoriaethau cychwynnol hyn a'r nodau llesiant cenedlaethol. Trwy gydol yr asesiad, gellid cynnig mwy o eglurhad ynghylch *sut* mae'r materion sy'n codi ym mhob adran yn cyfrannu atynt neu'n effeithio arnynt.

Er bod rhai cyfeiriadau at fwyafu cyfraniad neu berthnasedd nod i fater, gellid gwneud y cyfraniad neu'r perthnasedd yn fwy eglur gan eu bod yn dybiannol yn aml ar hyn o bryd, e.e. cyfeiriadau at gydlyniant cymunedol ac anghydraddoldeb. Gellid rhoi mwy o bwyslais ar y berthynas rhwng llesiant Torfaen a'r nod cydnerthedd a'r nod byd-eang.

Gallai fersiwn o'r asesiad yn y dyfodol a'r Cynllun gynnwys adran i wella ein dealltwriaeth o'r berthynas hon, sut mae materion sy'n flaenoriaeth yn cysylltu â nodau lluosog ac yn cyfrannu atynt, a sut mae BGC Torfaen yn bwriadu mwyafu ei gyfraniad atynt.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod asesiadau llesiant yn canolbwyntio ar yr ardal a'r 'lle' ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hynny. Mae'n gadarnhaol iawn bod y cyflwyniad i'r asesiad yn amlygu pwysigrwydd y dull seiliedig ar le.

Mae'r data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is a Chanol a ddarparwyd ar gyfer Torfaen gyfan a'r tair ardal gymunedol sef Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân yn sylfaen ardderchog i'r BGC ddeall llesiant lleoliadau gwahanol ac o fewn y lleoliadau hynny. Mae'r wybodaeth ynghylch amddifadedd yn arbennig

o dda o ran amlygu'r gwahaniaethau a'r anghydraddoldebau mewn cymunedau a rhwng cymunedau. Roedd y sgwrs ffôn gyda thîm Torfaen yn ddefnyddiol o ran deall anhawster casglu data ar lefel leol iawn.

Mae'r tair dogfen ffeithluniau ar gyfer Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân yn darparu gwybodaeth dda ynghylch asedau cymunedol a dangosyddion allweddol o ran llesiant amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Trwy gynnwys deunydd o'r ymgynghori, ceir darlun clir o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg am fyw yn yr ardal ac mae'r gymhariaeth ar draws Torfaen a Chymru yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r data. Fodd bynnag, gellid gwella'r proffiliau cymunedol hyn drwy ddadansoddi mwy ar yr heriau allweddol ym mhob lleoliad a rhoi sylwadau ar ba mor hanfodol ydynt i bob ardal gymunedol ac i Dorfaen yn gyffredinol (gweler y pwyntiau yn nes ymlaen ynghylch *dehongli* data). Ar hyn o bryd, mae'r data'n ddisgrifiadol mewn llawer man, ond gellid gwneud mwy i dynnu sylw at y materion allweddol sy'n wynebu'r gymuned e.e. faint o broblem yw diweithdra tymor hir? Pa mor fregus yw'r economi leol o ystyried ei dibyniaeth ar weithgynhyrchu? A yw'r seilwaith ffyrdd yn gydnerth yn wyneb y newid yn yr hinsawdd? Pa mor hanfodol yw'r sector gwirfoddol i'r gymuned? A yw rheoli llifogydd, y cyflenwad ynni a'r cyflenwad dŵr yn gydnerth - neu'n her allweddol? Mae'n gadarnhaol bod bwriad i wella'r rhain wrth i'r gwaith barhau i ddangos gwahaniaethau mewn cymunedau a rhwng cymunedau. Mae'n amlwg bod gan y fetholodeg Lle Dwfn ei rhinweddau a bydd yn ddiddorol gweld sut bydd y fframwaith hwn yn cael ei boblogi â data pellach a dadansoddiad dehongliadol wrth i gynllunio llesiant ddatblygu yn Nhorfaen.

4. Cynnwys data - anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o unigolion.

Un o flaenoriaethau fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod, yn y lle cyntaf, yn cynnwys pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau bywyd pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau. Mae'n gadarnhaol bod cysylltiad clir wedi'i wneud rhwng yr asesiad Anghenion Poblogaeth a'r asesiad hwn yn Adran 2.8.

Cadarnhaol hefyd yw gweld y ffocws ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus yn y cwestiynau ymgynghori a ddefnyddiwyd mewn amrywiaeth o fforymau ar draws Torfaen. Mae'r cwestiynau i'ch

cymuned yn darparu data ardderchog ynghylch pryderon pobl yn eu cymunedau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae gwybodaeth dda ynghylch mynediad at wasanaethau hefyd. Gellid gwella'r asesiad trwy grynhoi goblygiadau posibl y pryderon hyn i *wasanaethau cyhoeddus* yn y tair dogfen ffeithluniau ar lefel gymunedol, ond hefyd ar gyfer Torfaen yn gyffredinol.

Er bod prosiectau ac 'ymyriadau' wedi eu rhestru trwy'r dogfennau crynodeb cyfan - nid yw'n glir pa anghenion gwasanaeth ychwanegol, penodol sy'n ofynnol, ar ba raddfa, a sut mae hynny'n amrywio ar draws yr ardal. Deallwn y bydd y mater hwn yn cael ei godi yn y dadansoddiad o'r ymateb ac wrth ddatblygu'r cynllun, ond gellid cryfhau'r naratif yn y brif ddogfen drwy ddehongli rhywfaint ar yr her sy'n wynebu cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus. A reolir y materion hyn yn ddigonol ar hyn o bryd ac ym mha ardaloedd y gallai fod angen mwy o weithredu ar y cyd?

5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod her cydbwysio data, sylwadau a thystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dulliau a dadansoddiadau meintiol ac ansoddol yr asesiadau yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth gychwynnol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Fel y trafodwyd ym mhwynt 3 uchod, mae'r asesiad yn darparu lefelau data ardderchog ac yn gwneud defnydd da ohonynt ond yn gyffredinol, mae angen dehongli, dadansoddi a chyfosod y materion allweddol yn well. Mae angen dehongli mwy ar y rhestrau a'r tablau a osodwyd allan yn dda er mwyn nodi a chyfleu'r materion hollbwysig a mwyaf arwyddocaol i lesiant ar bob lefel. Mae data ansoddol o'r ymgynghori wedi'i ddefnyddio'n dda yn yr adroddiadau Ffeithluniau manwl: ond eto, mae diffyg dehongli ar hyn yn golygu ei fod yn anodd penderfynu pa faterion llesiant yw'r rhai pwysicaf i ymdrin â hwy. Yn gyffredinol, gellid gwella'r asesiad trwy dynnu themâu neu faterion at ei gilydd a thrwy hynny gyflwyno darlun llawer mwy cyfoethog, sy'n cael ei yrru gan y naratif (gweler y cwestiynau enghreifftiol ym mhwynt 3)

Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig adborth mwy penodol ar bob thema.

Llesiant cymdeithasol - Mae'r adran hon yn darparu data ar y materion canlynol: diogelwch a chydlyniant cymunedol, trosedd, diogelwch rhag tân a diogelwch ffyrdd, tai ac amddifadedd. Mae'r data ynghylch amddifadedd yn dangos anghydraddoldebau ar draws yr ardal yn neilltuol o

dda. Mae'n gadarnhaol hefyd bod ffocws ar gydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, mae hon yn un o'r prif adrannau a allai elwa o lawer mwy o ddehongli er mwyn disgrifio arwyddocâd y materion hyn i Dorfaen. Yn gyffredinol, arweinir y naratif gan ddangosyddion. I'r diben hwn, dylai'r adrannau ynghylch *asedau cymunedol a chymdeithasol* yn 2.6 a 2.7 gael eu cynnwys yn yr Adran hon (gan gynnwys y sylwadau ardderchog ar asedau cymunedol, banciau bwyd, trosglwyddo asedau cymunedol ac ati) fel rhan o sylwebaeth ehangach ar lesiant cymdeithasol yn yr ardal e.e. cyfalaf a rhwydweithiau cymdeithasol; a rôl yr economi anariannol mewn llesiant cymdeithasol a lefelau gofal di-dâl.

Llesiant amgylcheddol - yn hytrach na disgrifio'r data, mae'r adran hon yn cynnig llawer mwy o ddehongli ar yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym am Dorfaen. Mae'n arbennig o eglur ynghylch: pam mae mater yn bwysig; cyd-destun y mater yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig ac, yn bwysig, dehongli hynny yn Nhorfaen. Mae'n amlwg o'r adran hon beth yw'r materion hollbwysig i'r ardal ac i'r BGC. Gellid cryfhau rhannau eraill o'r asesiad trwy fabwysiadu'r dull naratif hwn.

Llesiant economaidd - Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dangosyddion allweddol o ran cyflogaeth, sgiliau, cyflog a chymwysterau. Mae'r rhain hefyd yn canolbwyntio ar ddangosyddion, ac ychydig iawn o ddehongli sydd i'n galluogi ni i ddeall beth yw'r materion hollbwysig. Bu ymgysylltu da â'r sector preifat mewn sesiynau 'lle i feddwl' ac mae hynny'n gadarnhaol iawn - a oes cynlluniau i ymgysylltu ymhellach trwy gyfrwng clybiau busnes a fforymau eraill? Gellid gwella'r adran hon ymhellach drwy ddarparu darlun ehangach o lesiant economaidd yn yr ardal trwy: ddisgrifio'r gydberthynas rhwng Torfaen ac economïau lleol eraill; natur y cyfleoedd sy'n deillio o'r prosiect Dinas-ranbarth; dealltwriaeth o batrymau cymudo a'u rôl mewn llesiant lleol². Deallwn fod Brexit yn achosi ansicrwydd mawr ond mae goblygiadau posibl Brexit ar gyllido, er enghraifft, yn fater allweddol a fydd yn cael effaith ar Dorfaen ar draws y themâu llesiant. Dylid cynnwys rhyw ymwybyddiaeth o'r effeithiau tebygol ar ddinasyddion Torfaen yn yr asesiad wrth i'r BGC symud ymlaen â'r cynllunio llesiant.

Llesiant diwylliannol - mae'n gadarnhaol bod yr adran hon yn cydnabod yr angen am ddatblygu dealltwriaeth a data ynghylch asedau diwylliannol Torfaen. Ar hyn o bryd, nid yw'r ffocws ar ddata chwaraeon, y celfyddydau, amgueddfeydd, mannau hanesyddol a'r Gymraeg yn rhoi darlun clir a chyfannol o lesiant diwylliannol yn yr ardal, ac mae'n canolbwyntio'n amlwg ar ddangosyddion. Prin yw'r dehongli yn yr adran hon ac mae hwn yn faes lle byddem yn disgwyl gweld yr asesiad yn gwella.

²(dylid cynnwys adran 2.6.2 ynghylch trafnidiaeth, amseroedd teithio a chostau teithio yn yr adran hon).

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdu rhwng y gwahanol nodau llesiant, tensiynau, a diffygion yn yr ardal.

Fel y disgrifiwyd mewn pwyntiau yn gynharach yn y ddogfen hon, yn Adran 1 a 2, mae'r asesiad yn darparu data ynghylch ystod o ddangosyddion sy'n darlunio agweddau allweddol ar lesiant, ond yn gyffredinol, mae angen mwy o ddehongli er mwyn cyfleu graddfa'r prif heriau, y cyfaddawdau a'r tensiynau ac effaith y rhain ar yr ardal. Gallai'r dull a ddefnyddiwyd yn yr adran llesiant Amgylcheddol i ddisgrifio heriau a chyfaddawdau, â chymorth dangosyddion, gael ei efelychu trwy'r ddogfen gyfan.

Darperir heriau allweddol o safbwynt y gymuned yn y data ymgynghori o'r tair Dogfen Ffeithluniau, sy'n rhestru pryderon a heriau allweddol gan y gymuned a rhanddeiliaid eraill. Mae hon yn wybodaeth dda y gellid ei hadlewyrchu'n well yn y brif ddogfen a'r Crynodeb Gweithredol.

Yn Adran 3 ynghylch Tueddiadau a Heriau i'r Dyfodol, mae'r Asesiad yn datblygu sylwadau ehangach ar yr hyn sy'n bwysig yn ardal Torfaen yn y tymor hir. Mewn mannau, mae'r adrannau ynghylch Demograffeg, Iechyd, Rhagolygon Economaidd, Newid yn yr Hinsawdd a Thai, yn cynnig crynodeb ardderchog o'r rhesymau pam mae mater yn bwysig, natur yr her a sut mae'r mater hwn yn effeithio ar Dorfaen e.e. cyfleoedd ynni a thai. Mewn mannau eraill, disgrifir yr heriau ond gellid eu dehongli'n well o safbwynt Torfaen e.e. iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Unwaith eto, darperir dangosyddion (e.e. iechyd, allyriadau, ôl troed ecolegol), ond mae angen mwy o naratif i ni ddeall eu harwyddocâd. Mae rhywfaint o sylwadau clir yn y Crynodeb Gweithredol ar yr adrannau hyn, ac mae angen cynnwys y sylwadau hynny yn Rhan 1 (e.e. ôl troed ecolegol)

Mae'n gadarnhaol bod y BGC wedi nodi bod angen gwneud rhagor o waith ar asedau cymunedol i lywio'r asesiad. Dylai'r rhain gynnwys asedau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd, diwylliannol ac adeiledig. Byddai cynnwys y rhain yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r 'asedau' sydd ar gael i Dorfaen a all helpu i fynd i'r afael â'r tueddiadau llesiant 'gwael' a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r asesiad.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio y mae angen i BGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. O ganlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth wrth gynhyrchu'r asesiad, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau sector preifat.

Mae'n amlwg bod yr holiadur llesiant, yr arolwg trigolion a'r astudiaethau Lle Dwfn wedi cynnwys dinasyddion, rhanddeiliaid a busnesau er mwyn casglu data ansoddol a meintiol i lywio'r asesiad. Mae'n eglur i randdeiliaid y bydd yr ymgysylltu'n parhau trwy gydol y cyfnod ymgynghori, a bod yr asesiad yn broses barhaus. Mae hyn hefyd yn gadarnhaol. Mae'r ymgysylltu â GSWAG a'r ymrwymiad i ddatblygu cofrestr risgiau cymunedol ar y cyd yn ddwy enghraifft o gydweithio da.

Deallir hefyd bod ymdrech fawr wedi'i gwneud i lywio'r asesiad trwy sesiynau casglu gwybodaeth ac ymgynghori â rhanddeiliaid - fel yr amlygir yn yr Atodiadau. Mae'r rhain yn ymdrechion gwirioneddol gadarnhaol a dylent ddangos yn llawer cliriach sut yr ymgysylltwyd ag unigolion a sefydliadau, sut y bu'r ymgysylltu hwn yn fanteisiol i'r dadansoddi, a sut yn union y mae'r wybodaeth wedi helpu i ffurfio a llywio'r asesiad. Er bod adroddiad ynghylch y fethodoleg wedi'i gynnwys yn Rhan 1, mae angen i'r asesiad gyfleu'r gwaith hwn yn fwy eglur fel rhan o'r broses cynllunio llesiant.

Un enghraifft lle gellid gwneud hynny er mwyn darparu gwell gwybodaeth i'r darlennydd yw trwy grynhoi a dadansoddi'r data ynghylch Cynnwys y Gymuned o'r dogfennau Ffeithluniau a'i gynnwys yn y Crynodeb Gweithredol ac yn Rhan 1 o'r asesiad. Dylid amlinellu a dehongli'r hyn y mae'r data hwn o'r tair ardal yn Nhorfaen yn ei ddweud wrthym am lesiant a sut mae'n cael ei ddefnyddio i lywio'r cynlluniau llesiant.

Roedd yr alwad ffôn gyda thîm y BGC yn cynnwys trafodaeth ynghylch sut bu'r asesiad hwn yn gatalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC, a bod y gwaith hwnnw wedi parhau ym mis Chwefror er mwyn archwilio'r setiau data. Dylai'r gwaith hwn ac unrhyw ganfyddiadau allweddol o'r sesiynau gael eu hamlygu yn yr Asesiad cyn y fersiwn derfynol os bydd hynny'n ymarferol bosibl.

8. Integreiddio

Un o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws y seilos sefydliadol a pholisi traddodiadol er mwyn dehongli beth mae hyn yn ei olygu i lesiant yn yr ardal.

Mae hwn yn faes y dylech roi ystyriaeth bellach iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Mae lle i integreiddio rhagor ac ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng polisi a heriau ym mhob thema – er enghraifft ansawdd aer a iechyd, tir halogedig a llifogydd, mentrau gweithredol a photensial y Dinas-ranbarth. Prin yw'r dystiolaeth fod y data o bob adran (ac ym mhob adran) wedi cael ei ystyried ochr yn ochr â data'r lleill, neu bod ystyriaeth wedi'i rhoi i gydberthnasoedd. Mae angen archwilio'r cydberthnasoedd hyn fel rhan o ymdrech ehangach i ddehongli'r data a gasglwyd hyd yn hyn. Mae hwn yn rhywbeth y dylai'r BGC ei ystyried fel mater pwysig wrth fynd ati i gynllunio llesiant.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, y tymor canol *a'r tymor hir* trwy gydol proses yr asesiad a'r cynllun. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad, ynghyd â chydabod llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Nodir o'r alwad ffôn gyda thîm yr asesiad mor heriol y bu'r gwaith hwn.

Fel yr amlygwyd ym mhwynt 6 (uchod), mae'r adran ar Dueddiadau a Heriau i'r Dyfodol yn dechrau creu naratif cryfach mewn mannau, ynghylch effeithiau posibl tueddiadau'r dyfodol. Mae hyn i'w ganmol, a dylid ei ddatblygu. Hefyd, mae enghreifftiau da yn yr Asesiad lle defnyddiwyd data tymor hir ynghylch llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, tai a'r newid yn yr hinsawdd i ddatblygu dealltwriaeth o heriau cyffredinol yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen dehongli hyn yn gliriach o ran y goblygiadau a'r arwyddocâd i Dorfaen yn *benodol* ac i'r tair ardal gymunedol.

Byddai'r asesiad yn elwa o roi sylw mwy cyson i effaith bosibl y tueddiadau tymor hir ar draws y pedair thema yn ardal Torfaen yn gyffredinol ac yn ardaloedd Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân, ac mae hyn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad a'r Cynllun ddatblygu. Gellid mabwysiadu ymagwedd syml er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn: crynhoi'r heriau yn y tymor byr, y

tymor canol a'r tymor hir ar gyfer pob adran; nodi ymhle y mae goblygiadau arwyddocaol posibl i'r ardal, a'r bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau tymor hir lle mae angen dadansoddi ymhellach.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ei hadroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol ym mis Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol sef: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a'r Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd, Defnydd Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad roi sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais cliriach ar yr heriau tymor hir i lesiant yn yr asesiad cychwynnol a gyhoeddir yn ystod y misoedd nesaf.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n nodau fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dealltwriaeth a dadansoddi manylach o'r materion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Dorfaen yn fanteisiol, i lywio proses y cynllun llesiant. Gallai'r asesiad gynnig eglurhad cliriach ynghylch 'rôl' yr ardal yn y rhanbarth. Bydd hefyd yn bwysig bod y BGCau yn ystyried casgliadau asesiadau llesiant lleol eu cymdogion wrth fynd ati i ddatblygu eu cynllun.

Er bod cyfeiriad at y prosiect Dinas-ranbarth, mae'n aneglur beth yw goblygiadau posibl y prosiect pwysig, tymor hir hwn i bob agwedd ar lesiant cymunedol ledled Torfaen. Er bod yr effeithiau penodol yn aneglur ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn dylanwadu ar gydlyniant, cydraddoldeb, cydnherthedd ac ati. Dylid cynnwys dylanwad posibl y prosiect ar gyfer pob adran o'r asesiad, y tu hwnt i'r adran 'Llesiant economaidd', gan y bydd yn debygol o gael effeithiau lluosog ar draws gwahanol rannau o Dorfaen. Gellid bwrw rhagor o oleuni hefyd ar arwyddocâd patrymau cymudo i lesiant, materion hollbwysig i'r seilwaith trafndiaeth ar lefel ranbarthol a natur y gydberthynas â'r G7 a phartneriaid rhanbarthol eraill.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau bod cynllunio llesiant yn broses barhaus lle bydd y sylfaen o dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd y BGCau at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad a materion data wrth symud ymlaen.

Mae'n wirioneddol gadarnhaol gweld dadansoddiad o'r 'Bylchau' yn adran 6 o'r Crynodeb Gweithredol ac adran 3.9 o Ran 1. Mae'n amlygu materion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau gwybodaeth hyn, ac yn rhoi rhestr o anghenion data penodol wrth i'r broses llesiant symud ymlaen. Mae'n arbennig o dda gweld cysylltiad yn cael ei wneud â phrosesau'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Asesiad Poblogaeth yn ystod 2017. Bydd yn ddiddorol gweld sut bydd y ffynonellau data hyn yn llywio'r cynlluniau llesiant yn Nhorfaen.

Gellid gwella'r rhestr o 'Fylchau' drwy gyfleu pa rai o'r rhain sy'n hollbwysig o ran datblygu'r cynlluniau llesiant yn ystod y flwyddyn nesaf a pha rai y byddid yn eu datblygu dros gyfnod hwy. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a'r tu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil a rheoli data i mewn i'w cynlluniau busnes a chorfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru ynghylch anghenion y BGC.

Gellid gwella'r adrannau hyn hefyd drwy: egluro sut lluniwyd y rhestr o fylchau - a ddaeth o'r sesiynau casglu gwybodaeth neu'r tîm oedd yn cynhyrchu'r asesiad? - a chyfarwyddiadau (neu hyperddolen) yn esbonio sut gall ymgynghoreion dynnu sylw'r BGC at unrhyw fylchau data pellach.

12. Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r canllawiau statudol yn gosod cyfrifoldeb ar y BGCau i *fwyafu* eu cyfraniad i'r nodau llesiant trwy ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n amlwg bod elfennau o'r dull a ddefnyddiwyd gennych sy'n dangos sut yr ystyriwyd y pum dull o weithio fel rhan o broses datblygu'r asesiad. Mae'n ardderchog gweld rhestr o'r rhain yn Adran 1.8.1. gan ddangos sut defnyddiwyd y pum dull o weithio i lunio'r broses asesu llesiant. Gellid gwella'r tabl hwn drwy roi enghreifftiau penodol o'r pum dull o weithio a sut mae defnyddio'r egwyddor wedi gwella neu ychwanegu gwerth at yr ymagwedd h.y. beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r pum dull o weithio, a sut mae hyn wedi gwella eich dealltwriaeth o lesiant yn Nhorfaen?

- *Ymglyfraniad* – ai cwmpas neu ddyfnder yr ymglyfraniad sydd yma?
- *Cydweithio* - a arweiniodd hyn at gydweithio newydd neu well?

- *Y tymor hir* - beth yw heriau a manteision defnyddio tueddiadau tymor hir?
- *Integreiddio* - ymhle mae'r data o un thema wedi llywio thema arall?
- *Ataliaeth* - pa weithgareddau ataliol a amlygwyd gan yr asesiad?

Bydd darparu rhagor o wybodaeth am y rhain yn helpu partneriaid y BGC i ddeall y *newid* a fu o ganlyniad i ddefnyddio'r egwyddor i lunio'r asesiad ac adeiladu ar y gwaith da wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y dogfennau'n eglur ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Byddai'r Crynodeb Gweithredol ac Adran 1 o Ran 1 fel ei gilydd yn elwa o ymdrin yn fwy penodol â'r canlynol: y camau nesaf; sut gall unigolion a sefydliadau barhau i gymryd rhan; yr amserlen; a'r hyn y mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud. Yn bwysicach, mae angen i'r eglurhad hwn gyfleu sut bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i lunio amcanion ar gyfer y BGC. Fel y trafodwyd ym mhwynt 7, dylai'r gwaith diweddar i archwilio'r data gyda phartneriaid fod yn rhan o'r naratif hwn. Nodwyd hefyd o'r sgwrs ffôn gyda thîm yr asesiad fod bwriad i ddatblygu dealltwriaeth ranbarthol o oblygiadau'r data trwy gyfrwng GSWAG.

Credwn y gallai'r Crynodeb Gweithredol a Rhan 1 o'r asesiad gael eu datblygu i edrych yn llawer mwy 'tuag allan' fel offeryn cyfathrebu i gynnwys pobl, cymunedau a phartneriaid ym mhroses y cynllun llesiant yn Nhorfaen. Mae'r dull ffeithluniau a ddefnyddiwyd ar gyfer y tair ardal yn rhoi darlun cliriach o lawer o'r data allweddol ac fe'i cyflwynwyd yn dda. Byddai mabwysiadu dull tebyg ar gyfer y casgliad cyfan o ddogfennau yn gymorth o ran cyfathrebu'r negeseuon allweddol ac ymgysylltu â phartneriaid, cymunedau a rhanddeiliaid eraill.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle credwn y gallai'r asesiad gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi ac yn y tymor canol wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Ar ben hynny, trefnwyd galwad ffôn i ni fedru trafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC oedd wedi ymwneud â'r broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd

rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cychwynnol a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchu'r asesiad.

Mae nifer o themâu eang, cylchol a chdir wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg i hon fod yn dasg anferthol dros gyfnod cymharol fyr o amser, a bod y partneriaid wedi mynd i ymdrech fawr i lunio'r asesiad drafft. Mae'r gwaith sy'n dod i'r golwg ym Mlaenafon, Pont-y-pŵl a Chwambrân yn darparu fframwaith ardderchog ar gyfer datblygu eich dealltwriaeth o lesiant cymunedau penodol ymhellach.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad. Mae'r rhain yn berthnasol i Dorfaen gyfan ac i ardaloedd cymunedol unigol:

Integreiddio ar draws themâu - mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd ynghylch y pedair thema a goblygiadau hynny i lesiant

Dehongli'r data – mwy o eglurhad ynghylch sut mae'r materion a nodwyd drwy'r data yn effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau

Heriau - darparu dadansoddiad cliriach o'r heriau (a'r cyfleoedd) sy'n wynebu llesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir

Cyd-destun rhanbarthol - gwell dealltwriaeth o effaith llesiant ar le Torfaen yn y rhanbarth a'i chydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cyfagos.

Llesiant diwylliannol - dealltwriaeth ehangach o asedau diwylliannol a'u rôl o ran llesiant ledled Torfaen

Ymgysylltu, Ymgysylltu a Chydweithio - mwy o ffocws ar y gwaith cadarnhaol a wnaed o ran yr asesiad sydd wedi annog ymgysylltu, cydweithio ac ymgysylltu yn y broses

Tueddiadau'r Dyfodol – rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar lesiant yn Nhorfaen gyfan ac yn y tair ardal gymunedol

Symud ymlaen - darparu Crynodeb Gweithredol sy'n wynebu 'tuag allan' fel offeryn cyfathrebu ar gyfer ymgysylltu trwy gydol y broses cynllunio llesiant.

Cydnabyddir y gellir mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr ac adeg cyhoeddi'r asesiad yn derfynol. Mae'n gadarnhaol bod y partneriaid eisoes yn archwilio blaenoriaethau ar sail yr asesiad hwn gan ddefnyddio'r matrices 'sgorio' a ddatblygwyd gan y BGC yng Nghaerffili.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Torfaen a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.